CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

Dyddiad y cyfarfod: **7 Tachwedd 2024**

Teitl: **Cofeb Rhyfel Llanbedr Pont Steffan – gwaith arfaethedig**

Pwrpas yr adroddiad: **I ystyried gwaith arfaethedig i'r Gofeb**

Er: **Penderfyniad**

Cefndir

Cyngor Sir Ceredigion yw unig ymddiriedolwr Cofeb Ryfel Llanbedr Pont Steffan yn rhinwedd Datganiad Ymddiriedolaeth sydd wedi'i ddyddio 06/02/1930.

Derbyniodd Adran Ystadau'r Cyngor Hysbysiad ar 12/08/2024 gan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan am gais Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adfer y gofeb ryfel. Mae'r gwaith arfaethedig yn cynnwys glanhau ac ailwampio llythrennau enwau'r rhai a fu farw, ail-gysegru'r cerflun a glanhau'r obelisg a'r plinth (gweler Atodiad 1 am gopi o gais cynllunio A240648).

Noder y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar gyfer y cais cynllunio fel 15/10/2024 ar y porth cynllunio.

Gofynnodd y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar ran yr ymddiriedolaeth, am sylw gan y Gwasanaethau Eiddo mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig. Mae'r Gwasanaethau Eiddo wedi dweud eu bod yn cefnogi'r gwaith yn fawr ac yn cael eu hannog bod y Cyngor Tref wedi derbyn cyngor proffesiynol arbenigol ar y mater. Gwnaed dau argymhelliad gan y Gwasanaethau Eiddo:

1. Bod angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr ymddiriedolwr i unrhyw gontractwr a gynigir i weithio ar y gofeb i sicrhau cymhwysedd a bod yswiriant digonol ar waith; ac

2. Oherwydd pwysigrwydd y cerflun a'r posibilrwydd y gellir dringo dros y ffensys heras, bod angen i'r ymddiriedolwyr sicrhau gwell diogelwch i amddiffyn ar waelod y sgaffald.

Ysgrifennodd y Gwasanaethau Cyfreithiol at y Cyngor Tref yn eu hysbysu y byddai angen caniatâd yr ymddiriedolwr arnynt cyn gallu dechrau unrhyw waith ar y safle gan fod y safle yn eiddo i'r ymddiriedolaeth. Yn ogystal, cymeradwyodd y Gwasanaethau Cyfreithiol argymhellion y Gwasanaeth Eiddo ac mae'r Cyngor Tref wedi cadarnhau mai *Coe Stone Ltd* yw eu contractwr ac maent wedi darparu tystiolaeth o yswiriant digonol. Cadarnhawyd hefyd y gellir cynyddu lefel y ffens ddiogelwch o amgylch y gofeb, er enghraifft, trwy ychwanegu ffens llen ddur gadarn. Mae'r Gwasanaethau Eiddo wedi cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r ymatebion hyn.

Byddai'r gwaith arfaethedig yn gwella cyflwr cyffredinol y gofeb ac mae dilysrwydd y geiriad felly'n gam cadarnhaol iawn a gymerwyd gan y Cyngor Tref ac, wrth i'r pwyntiau a godwyd gan y Gwasanaethau Eiddo gael sylw, argymhellir eu bod er budd gorau'r ymddiriedolaeth.

Argymhelliad / Argymhellion:
PENDERFYNODD y pwyllgor i roi caniatâd i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan i ymgymryd â'r gwaith arfaethedig trwy gais cynllunio A240648 trwy Coe Stone Cyf, yn amodol ar:

1. **codi ffens i gynyddu lefel diogelwch i waelod y sgaffald, megis ffens llen ddur gadarn, yn hytrach na'r ffensio arferol;**
2. **bod Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn rhoi cyfle i swyddogion Gwasanaethau Eiddo, ar ran yr ymddiriedolaeth, fynychu cyfarfodydd cyn dechrau ar y gwaith a chyfarfodydd wrth i'r gwaith symud yn ei flaen; a**
3. **bod Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn hysbysu'r Gwasanaethau Eiddo a'r Gwasanaethau Cyfreithiol unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ac yn darparu ffotograffau electronig o'r gofeb rhyfel ar ôl eu cwblhau y gellir eu cyflwyno yn y Pwyllgor nesaf sydd ar gael er gwybodaeth.**

Rheswm / rhesymau dros y penderfyniad:
Galluogi gwella cyflwr y gofeb ryfel a chadw'r gofeb ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn hyrwyddo amcanion yr ymddiriedolaeth.

Atodiadau: Atodiad 1 – Cais Cynllunio A240648

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Swyddog Adrodd: Louise Harries, Uwch Gyfreithiwr – Annadleuol (Eiddo)

Dyddiad: 23/09/2024